# Ymchwiliad i Gyllid Ysgolion: Digwyddiad Grŵp Trafod – 16 Ionawr 2019 Crynodeb o'r trafodaethau

## Cefndir

Ym mis Ionawr 2018 cynhaliodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Ar 16 Ionawr 2019 cynhaliodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ddigwyddiad grŵp trafod i lywio ei ymchwiliad i Gyllid Ysgolion. Diben y drafodaeth grŵp oedd galluogi Aelodau i gasglu barn a phrofiadau ar pa mor ddigonol yw cyllid ysgolion yng Nghymru a'r ffordd y caiff cyllidebau ysgolion eu pennu a'u dyrannu.

Prif ddiben y sesiwn oedd helpu i alluogi'r Pwyllgor i wneud y canlynol:

- trafod ac archwilio sut y mae awdurdodau lleol yn dyrannu adnoddau i addysg ac wedyn sut maent yn dosrannu'r rhain rhwng cyllideb yr AALl, y gyllideb Ysgolion a gedwir yn ganolog a'r Gyllideb Ysgolion Unigol.
- cael dealltwriaeth am y broses a'r fformiwlâu a ddefnyddir gan awdurdodau lleol i ddosbarthu'r Gyllideb Ysgolion Unigol ymhlith ysgolion unigol; gan gynnwys y ffactorau sy'n cael eu hystyried
- canfod pa oruchwyliaeth sydd gan Lywodraeth Cymru dros y prosesau hyn.
- casglu barn awdurdodau lleol ac arweinwyr ysgolion ynglŷn â'r fformiwla a ddefnyddir ar gyfer Setliad Llywodraeth Leol a'r pwysiad a roddir i gyllidebau ysgolion.
- casglu barn awdurdodau lleol ac arweinwyr ysgolion ynglŷn â'r berthynas rhwng cyllidebau craidd ysgolion a chyllid wedi'i neilltuo, a'r cydbwysedd rhyngddynt;

Roedd themâu ynghlwm â'r trafodaethau. Crynodeb o'r prif bwyntiau a godwyd yn y digwyddiad a geir yn y ddogfen hon. Nid yw'n cynnwys rhestr gynhwysfawr o bob sylw a wnaed ac ni chaiff y cyfranogwyr eu henwi. Nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu cytundeb cyffredinol ar yr holl faterion a godwyd.

## Thema 1: Digonolrwydd cyllid ysgolion

Roedd cytundeb eang nad oedd cyllid ar gyfer ysgolion yn ddigonol. Roedd hefyd yn amlwg bod anawsterau ariannu yn cynyddu – nododd rhai ostyngiad mewn termau real mewn cyllidebau wrth ystyried chwyddiant a chostau cynyddol.

Amlygodd y cynrychiolwyr mai un cwestiwn pwysig i'w ateb yw 'a oes unrhyw un wir yn gwybod beth sydd ei angen i redeg ysgol yn yr 21ain Ganrif?'. Heb wybod beth sydd ei angen ar ysgol, nid yw'n bosibl dweud a yw cyllidebau'n ddigonol.

Dywedodd rhai cynrychiolwyr fod pwysau uwch o ran costau yn broblem sylweddol – felly hyd yn oed os yw cyllidebau'n aros yn wastad neu'n codi ychydig, mae'n rhaid i ysgolion wneud mwy a mwy o fewn eu cyllidebau.

Ar yr un pwynt, awgrymwyd bod y lefelau ariannu fesul disgybl yr un fath ag yn 2006 – ond bod y galw ar ysgolion yn llawer mwy, felly mae'r lefelau ariannu presennol yn rhwystro cyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru. Dywedodd rhai cynrychiolwyr mai cynnydd yn nifer y disgyblion oedd yr unig reswm y gallai rhai ysgolion fantoli'r gyllideb.

Awgrymodd rhai cynrychiolwyr fod y sefydliadau 'haen ganol' ychwanegol fel y Consortia Rhanbarthol yn mynd ag adnoddau oddi wrth addysg rheng flaen.

Dywedodd cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol fod rhagamcanion cyllideb ysgolion yn aml yn ffug, ac mai llinell yn y tywod ydyw yn unig. Nid yw cael cylch cyllideb blwyddyn yn helpu gyda hyn, a byddai'n well gan rai awdurdodau lleol ddyraniadau cyllideb tymor canolig. Er bod cyllidebau tair blynedd wedi'u crybwyll fel rhai sy'n cael eu ffafrio, efallai y bydd ansicrwydd cyllidebol yn golygu nad yw hynny'n bosibl.

### Amrywiadau yng nghyllidebau ysgolion

Mynegwyd pryderon bod amrywiadau ar draws awdurdodau lleol o ran eu dyraniadau i ysgolion. Fodd bynnag, nodwyd hefyd bod amrywiadau ar ddyraniadau cyllideb i ysgolion hyd yn oed o fewn yr un ardal awdurdod lleol.

Fodd bynnag, ar yr un pwynt, gofynnodd un awdurdod lleol pam y dylai cyllid ar gyfer ysgolion fod yr un fath, gan nodi, er bod angen iddo fod yn wahanol gan fod gan bob ysgol anghenion gwahanol, dylai fod lefel sylfaenol o gyllid fesul disgybl sy'n gyson i bob ysgol.

Gall yr amrywiad mewn blaenoriaethau cyllideb hefyd effeithio ar rai ysgolion - gan gynnwys ar ddigonolrwydd y gyllideb. Un enghraifft a roddwyd oedd bod gan rai ysgolion sydd mewn adeiladau hŷn lefelau uwch o angen cynnal a chadw adeiladau ond nid yw'r angen cynyddol hwn yn cael ei adlewyrchu mewn cyllid.

## Effaith diwygiadau

Roedd pryder eang ynghylch effaith diwygiadau ar gyllid ysgolion. Roedd llawer o randdeiliaid yn credu na fyddai'n bosibl bodloni gofynion y diwygiadau/newidiadau o fewn y cyfyngiadau cyllidebol presennol.

Dywedodd ysgolion eu bod ar hyn o bryd yn wynebu cyfnod o ddiwygio a newid enfawr. Mae newid parhaus wedi bod dros y degawd diwethaf – ni fu cyfnod 'sefydlog na chyson'. Mae'n anodd mesur gofynion presennol yn erbyn yr hyn sydd wedi digwydd o'r blaen.

Cafwyd rhai negeseuon cyson bod galwadau cynyddol ar ysgolion megis y gofynion o'r Ddeddf ADY, diwygio'r cwricwlwm, cynnydd mewn costau pensiwn athrawon, ac ati. Nid oes neb yn gwybod beth fydd costau'r rhain – er y gallant geisio rhagweld.

## Defnyddio cronfeydd wrth gefn

Daeth darlun clir i'r amlwg ar draws yr holl grwpiau bod ysgolion cynradd (ac i ryw raddau ysgolion arbennig) yn cadw eu cronfeydd wrth gefn yn hytrach nag ysgolion uwchradd. Roedd gan rai ysgolion cynradd gronfeydd mawr wrth gefn.

Awgrymwyd bod y data a gesglir yn fesur eithaf mympwyol. Nid yw un pwynt yn ystod y flwyddyn yn cymryd i ystyriaeth sut y gallai ysgolion ddefnyddio eu cronfeydd wrth gefn at ddibenion penodol ar adegau eraill yn ystod y flwyddyn. Yn aml caiff y cronfeydd wrth gefn eu clustnodi at ddibenion penodol.

Dywedodd rhai rhanddeiliaid fod Llywodraeth Cymru yn iawn i ddweud y dylai fod lefel benodol o gronfeydd wrth gefn ac y dylid dychwelyd unrhyw beth sydd dros y terfyn hwnnw. Fodd bynnag, dywedwyd wrth rai penaethiaid i ddal gafael ar gyllid wrth gefn oherwydd eu bod yn ansicr beth fyddai'n digwydd yn y flwyddyn

ariannol ganlynol. Gellir ystyried dal gafael ar gronfeydd wrth gefn fel cyllidebu doeth a meddwl yn y tymor hwy.

Awgrymwyd mai un broblem o ran barnu'r lefel briodol o gronfeydd wrth gefn yw peidio gallu cynllunio mwy na blwyddyn ymlaen llaw. Mae'n anodd i ysgolion wybod a oes angen iddynt gadw gafael arnynt am yr amseroedd gwaethaf sydd o'u blaenau. Mae hefyd yn anodd i awdurdodau lleol farnu a ddylent ddweud wrth ysgol am wario neu gymryd arian yn ôl gan nad ydynt yn gwybod pa mor anodd fydd pethau yn y dyfodol.

Mater arall a nodwyd oedd bod Llywodraeth Cymru yn aml yn rhyddhau cyllid i awdurdodau lleol yn ystod wythnosau/dyddiau olaf blwyddyn ariannol. Byddai'n amhosibl gwario o dan yr amgylchiadau hynny, ac felly byddai'n anochel bod rhaid defnyddio cronfeydd wrth gefn.

## Thema 2: Y modd y mae awdurdodau lleol yn dyrannu adnoddau i addysg

Cytunodd y cynrychiolwyr fod gan bob un o'r 22 awdurdod wahanol flaenoriaethau a rhwymedigaethau statudol. Mae'n ymddangos bod loteri cod post yng Nghymru - gan fod gan bob awdurdod lleol ei broblemau a'i faterion ariannu ei hun ar draws ei gyllidebau (e.e. gwasanaethau cymdeithasol), sy'n golygu llai o arian yn eu cronfa addysg.

Awgrymwyd bod y lefelau ariannu y mae awdurdodau lleol yn eu cael yn fater sylfaenol. Os nad yw awdurdodau lleol yn derbyn digon o arian, yna ni allant drosglwyddo hynny i ysgolion.

Dywedwyd hefyd bod llawer o'r gwariant ataliol yng nghyllideb Llywodraeth Cymru yn mynd ar iechyd – mae hyn yn anwybyddu natur ataliol gwariant addysg yn ei hanfod.

### Diogelu cyllidebau ysgolion

Dywedodd nifer o awdurdodau lleol mai eu polisi yw diogelu cyllidebau ysgolion ond soniwyd bod hyn yn digwydd ar draul gwasanaethau anstatudol eraill, fel gwaith cynhwysiant a gwaith ieuenctid, sydd wedyn yn cynyddu costau ymhellach ar gyfer gwasanaethau statudol.

Nododd rhai cynrychiolwyr, er y bu rhywfaint o ddiogelwch i ysgolion, pe bai cyllidebau'n cael eu diogelu'n llawn, byddai lefel y cyllid y byddai ei angen yn effeithio'n andwyol ar wasanaethau cyhoeddus.

Dywedodd un awdurdod lleol ei fod yn dirprwyo cymaint â phosibl i ysgolion yn yr ISB ond mae hyn wedi golygu symud rhai gwasanaethau/gweithgareddau o'r cyllidebau canolog i'r ISB. Fodd bynnag, dywedodd awdurdod lleol gwahanol ei fod yn darparu llawer o wasanaethau yn ganolog.

## IBAs

Dywedodd rhai awdurdodau lleol eu bod yn gwario mwy na'r IBA. Nodwyd pryder os yw gwariant eisoes yn uwch na'r IBAs, ond bod ysgolion yn dweud bod angen mwy arnynt o hyd, bod hyn yn arwydd bod y lefelau IBA yn rhy isel. A yw hyn yn dangos bod Llywodraeth Cymru yn credu y gellir rhedeg ysgolion yn fwy effeithiol?

Mae dirprwyo cyllid gan awdurdodau lleol yn golygu dirprwyo cyfrifoldeb. Efallai na fydd yn briodol dirprwyo lefelau uchel iawn o gyllid ar y sail honno.

Holodd rhai cynrychiolwyr pam nad yw Gweinidogion yn cwestiynu awdurdodau lleol ynghylch lefelau'r cyllid a ddirprwyir, gan gredu mai dyna ddylai ddigwydd.

## Gweithio rhanbarthol

Awgrymodd rhai cynrychiolwyr nad yw gweithio rhanbarthol mewn perthynas â chyllid wedi gweithio o gwbl. Mae yna ddiffyg eglurder ac anallu i graffu ar gyllid a gedwir yn ganolog gan y consortia.  Mae angen gwneud cais am arian gan y consortia a gall hyn fod yn broses hir.  Mae'n ymddangos bod pob consortiwm yn gweithredu'n wahanol.

Roedd rhai rhanddeiliaid hefyd o'r farn bod angen mwy o weithio trawsffiniol. Nid oedd cyfrifoldebau addysg y sir yn hytrach na'r rhanbarth yn glir – ac roedd rhanddeiliaid yn credu bod cyflawni dros ranbarth yn llawer anoddach.

Mynegwyd un farn bod y system yn rhy wleidyddol yn lleol. Mae'n ymddangos bod ymgynghorwyr yn cwyno am ysgolion ac yn cymharu – ac efallai bod angen bwrdd addysg yn hytrach na chyngor sir.

## Y Gymraeg

Dywedodd un ysgol fod darpariaeth Gymraeg yn broblem arbennig. Dywedodd yr ysgol honno ei bod yn derbyn cyllid bob blwyddyn o'r sir ar gyfer recriwtio

athrawon Cymraeg a chreu/cyfieithu adnoddau Cymraeg a darparu gwasanaethau i'r ysgol gynradd. Ond nid oes sicrwydd o'r arian hwn ac mae sir arall wedi dod â hyn i ben.

## Thema 3: Pennu cyllidebau unigol ysgolion

Cododd llawer o gynrychiolwyr yr un cwestiwn – a ddylai fod fformiwla ariannu ysgolion genedlaethol, neu fframwaith cyson o leiaf?

Roedd cytundeb cyffredinol ei bod yn anodd, os nad yn amhosibl, dadansoddi'r fformiwlâu ariannu ar draws awdurdodau lleol – yn enwedig o ystyried eu cymhlethdod. Mae'n anodd meincnodi, a chymharu fformiwlâu rhwng awdurdodau gan fod pob awdurdod yn ei wneud yn wahanol. Nid oes tryloywder.

Dywedodd rhai cynrychiolwyr fod y fformiwla yn anodd iawn nad oes diben beio'r fformiwla pan nad oes digon o arian yn y gyllideb i'w wneud yn deg yn y lle cyntaf.

Roedd rhywfaint o gytundeb bod angen mwy o gysondeb ar draws awdurdodau lleol – a defnyddio meini prawf penodol. Mae'n ymddangos bod y prif ddangosyddion yn gywir (h.y. teneurwydd poblogaeth / amddifadedd) ond ei bod hi'n anodd deall a mapio dangosyddion a ddefnyddir mewn awdurdodau lleol. Nodwyd hefyd bod data ar deneurwydd poblogaeth wedi dyddio ac y gallai arwain at gyllid ar lefel amhriodol mewn rhai awdurdodau lleol (yn ôl pob tebyg yn seiliedig ar gyfrifiad 1990).

Gan fod awdurdodau lleol mor wahanol, awgrymwyd na fyddai'n bosibl llunio un fformiwla genedlaethol, gan y byddai gormod o 'enillwyr a chollwyr'. Byddai profiad Lloegr yn rhybudd o ran hyn hefyd. Fodd bynnag, roedd cytundeb cyffredinol bod angen datrys a mynd i'r afael ag anghysonderau.

Fodd bynnag, mynegwyd rhai safbwyntiau, er na fyddai'n bosibl symud i fformiwla ariannu genedlaethol, bod yna ateb yn y canol a allai fod yn ymarferol. Hynny yw, yn gyntaf rhaid cael lefel ariannu fesul disgybl yng Nghymru y mae'n rhaid ei chymhwyso'n genedlaethol. Yna rhaid edrych ar yr arian ychwanegol yn seiliedig ar feini prawf penodol. Rhaid cael bloc adeiladu sylfaenol i'r fformiwla ariannu gyffredinol.

Ceir goblygiadau o fformiwla llywodraeth leol a fformiwla ysgolion. Mae llawer yn cael ei yrru gan niferoedd disgyblion, ond efallai nad hynny yw'r mesur gorau o gostau darparu addysg. Awgrymodd un awdurdod lleol fod angen i'r fformiwla gyfrif am ffactorau eraill - gan gynnwys nifer yr ysgolion sydd gan awdurdod.

### Darpariaeth chweched dosbarth

Awgrymodd rhai awdurdodau lleol fod hyfywedd dosbarthiadau chwech yn dod yn fwy o broblem. Mae'r fethodoleg o'u hariannu wedi newid llawer dros y blynyddoedd, ac mae'n seiliedig ar amcangyfrifon nid ar niferoedd go iawn. Mae yna broblem fwy i chweched dosbarth llai o faint. Mae rhywfaint o draws-gymhorthdal hefyd rhwng Blynyddoedd 7-11 a chweched dosbarth, felly mae'n ymddangos bod y fformiwla yn cynyddu cyllid chweched dosbarth.

### Tryloywder

Ystyriwyd bod tryloywder y broses o ran sut mae awdurdodau lleol yn dyrannu/dirprwyo cyllidebau yn anghyson ledled Cymru. Cwestiynwyd os nad yw awdurdodau lleol ond yn dirprwyo 80% o gyllid, nid oes tryloywder ynghylch yr hyn sy'n digwydd i'r 20% sy'n weddill.

Dywedodd rhai cynrychiolwyr awdurdodau lleol, er y gallai trefniadau ymddangos yn dryloyw i'r rhai sy'n gweithio mewn awdurdodau lleol, o'r tu allan, nid yw bob amser yn hawdd cael gafael ar wybodaeth - gan gynnwys datganiadau cyllideb Adran 52.

Cwestiynwyd diffyg tryloywder hefyd yn y ffordd y mae awdurdodau lleol yn dyrannu neu'n dosbarthu arian ychwanegol y maent yn eu derbyn gan Lywodraeth Cymru. E.e. dyraniadau diweddar i ariannu cynnydd yng nghyflog athrawon. Mae rhai wedi defnyddio hyn at y diben penodol tra nad yw eraill wedi gwneud hynny.

Dywedodd un awdurdod lleol ei fod wedi sefydlu gweithgor i drafod toriadau cyllidebol gydag ysgolion er mwyn cynyddu tryloywder. Dywedodd awdurdod lleol arall ei fod wedi bod yn dryloyw ynghylch y newid o wasanaethau canolog i gyllidebau dirprwyedig ysgolion.

Roedd cytundeb cyffredinol bod fforymau cyllideb ysgolion yn gweithio'n dda, ond roedd pryder ynghylch a oedd gwybodaeth yn rhaeadru o'r fforwm i benaethiaid eraill.

## Thema 4: Defnydd ysgolion o'u cyllidebau dirprwyedig

Roed cytundeb cyffredinol mai'r prif ystyriaethau ar gyfer tîm arwain ysgol wrth bennu cyllideb yr ysgol yw staffio - sut i dalu costau staff a mantoli'r gyllideb. Mae beth bynnag sydd ar ôl yn mynd ar bethau eraill.

Wrth bennu cyllideb yr ysgol, dywedodd rhai ysgolion eu bod yn edrych ar staffio ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm ac arholiadau ac yna pethau eraill fel cynnal a chadw.

Dywedodd ysgolion ac awdurdodau lleol, er mwyn diwallu anghenion y gyllideb, bod toriadau staff yn cael eu hystyried fel yr opsiwn cyntaf. Awgrymwyd hefyd y bydd lefelau uwch o ysgolion mewn diffyg yn arwain at golli athrawon profiadol wrth i ysgolion geisio gwneud toriadau cyflog.

Fodd bynnag, dywedodd rhai ysgolion fod diswyddiadau fel arfer yn dechrau gyda staff cymorth yn hytrach nag athrawon. Mae pwysau cynyddol ar athrawon ac effaith negyddol ar forâl. Oherwydd lefel y diswyddiadau, mae'n rhaid i'r uwch dîm arwain mewn rhai timau ysgolion ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol.

Dywedodd rhai ysgolion eu bod yn teimlo bod angen craffu ar bob llinell gyllideb ac ystyried a fyddai gwell gwerth am arian wrth optio allan o gytundebau lefel gwasanaeth gyda'r awdurdod lleol. Ar gyfer rhai gwasanaethau, fel cyngor cyfreithiol, mae'n anodd gweld sut y byddai ysgol yn cael mynediad at yr un ansawdd o wybodaeth am gost is. Sicrhau arbedion effeithlonrwydd yw rôl y rheolwr busnes, ond nid oes gan bob ysgol y capasiti hwn.

Mae datblygiad athrawon yn rhan allweddol o ddiwygio'r cwricwlwm, a bydd angen i athrawon ddeall gwahanol egwyddorion addysgeg. Nid yw cyllid yn ddigonol i bob athro baratoi ar gyfer hyn. Dylai cyllid ar gyfer datblygiad proffesiynol athrawon fod yn rhan o gyllideb graidd ysgol. Ni fydd cyllid yn caniatáu i athrawon wneud gwaith ymchwil gweithgar. Nid oes arian ar gyfer cyflenwi i alluogi athrawon i ddilyn hyfforddiant i wella dwyieithrwydd.

## Gwasanaethau cymorth disgyblion

Ystyriwyd bod diwallu anghenion cynyddol disgyblion a materion emosiynol ac ymddygiadol o fewn y cyllidebau yn her fawr. Mae lefel anghenion iechyd meddwl ac emosiynol wedi codi. Mae'n rhaid i athrawon ymgymryd â llawer o faterion nad oeddent yn arfer gwneud. Mae'n baradocs bod cymaint mwy o ymwybyddiaeth o'r materion hyn ond llai o allu i ymdrin â nhw. Fodd bynnag, heb fynd i'r afael â materion o'r fath, ni allant ddysgu felly mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw.

Dywedodd un awdurdod lleol ei fod wedi canoli gwasanaethau cymorth disgyblion. Mae ysgol uwchradd o fewn yr awdurdod lleol hwnnw wedi uno ymyriadau a chyllid y PDG, ADY ac EMH gan fod yna gymaint o orgyffwrdd.

Dywedwyd bod llawer o gostau cudd mewn ysgolion – er enghraifft, lle ar gyfer arholiadau disgyblion. Ni all rhai disgyblion ag anghenion EMH ymdopi â bod mewn neuadd arholi fawr felly mae'n rhaid iddynt sefyll eu harholiadau yn y llyfrgell – mae hyn yn creu costau goruchwylio ychwanegol yn ogystal â cholli adnoddau'r llyfrgell.

## Gwasanaethau nas cynigir mwyach

Dywedodd un awdurdod lleol ei fod yn wynebu pwysau cynyddol i alluogi disgyblion i gael y profiadau 'cyfoethogi bywyd' sydd y tu allan i'r pynciau craidd.

Mae ysgolion yn blaenoriaethu cyllid ar gyfer y meysydd hynny sy'n statudol neu rai yr edrychir arnynt (mewn arolwg) fel mathemateg a Saesneg a chymhwysedd digidol. Nid yw gwaith atgyweirio a chynnal a chadw rheolaidd yn cael ei wneud gan fod cyllid cynnal a chadw fynd tuag at gostau staffio.

Oherwydd cyfyngiadau cyllidebol, dywedodd rhai ysgolion fod rhaid rhoi'r gorau i rai gwasanaethau, ac nad oeddent yn gallu cynnig unrhyw weithgareddau cyfoethogi (fel gweithgareddau awyr agored) y bydd eu hangen wrth i'r cwricwlwm newydd ddod i rym, yn enwedig ar gyfer disgyblion difreintiedig. Cyfeiriodd ysgolion at rai enghreifftiau o wasanaethau sydd wedi dod i ben, gan gynnwys:

- Addysg gerddoriaeth
- Clybiau gwaith cartref
- Mentora
- Digwyddiadau, ymweliadau â theatr ac ati.
- Cynllunio a chydlynu ar y cyd ag athrawon eraill.
- Ni all awdurdodi absenoldeb teuluol/arbennig/tosturiol disgresiwn bellach gan na all fforddio cyflenwi'r absenoldeb athro
- Tîm arwain yn mynd yn llai.

## Ategu cyllidebau craidd

Dywedodd nifer o gynrychiolwyr fod ysgolion yn gorfod codi eu harian eu hunain i ategu cyllidebau craidd.

Dywedodd ysgolion eraill eu bod wedi ceisio dod o hyd i ffyrdd o gynyddu eu hincwm eu hunain, fel defnyddio'r Cynnig Gofal Plant, ond mae pob cyfle am incwm ychwanegol yn golygu gwaith ychwanegol i staff.

## Thema 5: Y berthynas rhwng cyllidebau craidd a grantiau wedi'u clustnodi.

Roedd neges glir gan ysgolion eu bod yn ddibynnol ar grantiau atodol. Er y gall y rhain swnio fel rhywbeth ychwanegol, maent mewn gwirionedd yn helpu i gynnal lefelau gwasanaeth.

Croesawodd rhai cynrychiolwyr y gostyngiad mewn grantiau a system symlach. Fodd bynnag, awgrymwyd bod gormod o grantiau o hyd. Os yw Llywodraeth Cymru yn ymddiried mewn awdurdodau lleol, dylai roi cyllid mewn cyllidebau ymlaen llaw a chaniatáu i awdurdodau lleol fwrw ymlaen â'r gwaith o ddyrannu.

Mae ysgolion yn croesawu elfen o neilltuo - ni fyddai ysgolion yn cael cymaint o arian pe bai'r Grant Amddifadedd Disgyblion a'r Grant Gwella Addysg yn hytrach yn y Grant Cynnal Refeniw. Fodd bynnag, mae awdurdodau lleol am weld cymaint â phosibl o gyllid addysg yn y Grant Cynnal Refeniw.

Awgrymwyd, os rhoddir gormod o arian drwy grantiau wedi'u neilltuo i ysgolion, ac nad yw'r awdurdod lleol yn cael eu cynnwys yn ddigonol, yna gall yr awdurdod lleol ddatgysylltu eu hunain o'r flaenoriaeth ac ni fyddai'n cael ei adlewyrchu yn eu rhaglen strategol.

Cytunwyd bod cyllid wedi'i dargedu yn fwy effeithiol os caiff ei ddefnyddio'n hyblyg. Mae'n anochel ei fod yn cael ei ddefnyddio i ategu/sybsideiddio'r gyllideb graidd. Mae llawer o'r hyn y mae'n ei ariannu a'r rolau unigolion y mae'n eu hariannu yn cael eu hintegreiddio. Nid yw bob amser yn bosibl ei ddiffinio - e.e. PDG yn cael ei ddefnyddio tuag at grŵp anogaeth sy'n darparu ar gyfer disgyblion eraill ac yn cael ei ariannu'n rhannol gan bethau eraill. Nid yw hyn yn golygu ei fod yn cael ei ddefnyddio'n amhriodol - mae'n ddefnydd pragmataidd ac effeithlon o'r cyllid.

Codwyd y Grant Gwella Addysg (EIG) fel enghraifft lle gall grantiau cronni arwain at ostyngiad cyffredinol mewn cyllid. Dywedwyd hefyd bod lefelau cyllid EIG yn gostwng bob blwyddyn.

Roedd rhai cynrychiolwyr o'r farn bod eFSM yn ddangosydd gwael o amddifadedd ond cafodd ei ddefnyddio fel un o'r prif ddangosyddion o ran cyllid ysgolion.

Cynigiwyd Budd-dal Tai fel rhywbeth a allai fod yn ddangosydd gwell o amddifadedd a derbyniwyd yn gyffredinol bod angen i'r mesur amddifadedd newid.

Dywedodd nifer o gynrychiolwyr fod grantiau'n dod gan awdurdodau lleol a chonsortia yn rhy hwyr i fod yn effeithiol - os cânt eu derbyn yn hwyr yn y flwyddyn ariannol mae'n anodd eu gwario'n effeithiol, neu ar gyfer yr hyn y bwriedir iddynt gael eu gwario.

Barn gyffredinol awdurdodau lleol yw bod y consortia yn gam ychwanegol wrth ddosbarthu'r arian. Mae gweinyddu'r grantiau yn eithaf dwys o ran adnoddau. Awgrymwyd hefyd bod rôl y consortia yn broblem fawr - mae llawer o bobl yn gysylltiedig â hyn a diffyg tryloywder.

Dywedodd rhai cynrychiolwyr na fyddai defnyddio grantiau tymor byrrach yn cael y manteision tymor hwy i'r ysgol. Nid oes amser i gynllunio ac mae telerau'r grant yn rhy llym. Mae angen mwy o sicrwydd dros gyfnod o 3-4 blynedd. Gydag amserlen fyrrach, mae gwaith da yn cael ei wneud a'i werthuso ond yna mae'r grant wedi diflannu.